ETHOLIAD SENEDDOL

Etholiad dros
Etholaeth Gorllewin Casnewydd

1. Cynhelir etholiad am aelod i wasanaethu yn Nhŷ'r Cyffredin dros Etholaeth Seneddol Gorllewin Casnewydd.
2. Rhaid i bapurau enwebu gael eu cyflwyno i'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau Dros Dro yn Ystafell 527a, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, rhwng 10-00am a 4-00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun hyd ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **4-00 pm** ar **DDYDD IAU, 11 Mai, 2017**. Derbynnir ernesau ymgeiswyr ar ffurf arian parod neu ddrafft banc wedi'i godi ar un o fanciau'r stryd fawr.
3. Gellir cael papurau enwebu yn y lle ac ar yr adegau a grybwyllir uchod. Bydd y Swyddog Canlyniadau Dros Dro, ar gais unrhyw etholwr, yn paratoi papur enwebu i gael ei lofnodi.
4. Os ymleddir yr etholiad, bydd y bleidlais yn digwydd ar **DDYDD IAU, 8 Mehefin, 2017**.
5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos ar **DDYDD LIUN 22 Mai, 2017**.
6. Rhaid i geisiadau i gofrestru, newid neu ddiddymu pleidleisiau trwy'r post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn **5 p.m**. ar **DDYDD MAWRTH 23 Mai, 2017**
7. Rhaid i geisiadau i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol isod erbyn **5 pm** ar **DDYDD MERCHER, 31 Mai, 2017**.
8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail analluogrwydd corfforol neu am resymau sy'n ymwneud â gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn **5 p.m.** ar **8 MEHEFIN, 2017**. Rhaid bod yr analluogrwydd corfforol wedi digwydd ar ôl **5pm ar DDYDD MERCHER 31 MAI, 2017**. Er mwyn gwneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol ar ôl **5pm** ar **DDYDD MERCHER 31 MAI, 2017**.

Ardaloedd	Manylion Cyswllt y Swyddfa Cofrestru Etholiadol	
Gorllewin Casnewydd: - Allt yr Ynn, Betws, Caerllion, Y Gaer, Y Graig, Malpas, Maerun, Pilgwenlli, Tŷ-du, Shaftesbury, Stow Hill, Parc Tredegar	Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR	01633 210744/5

Will Godfrey
Swyddog Canlyniadau Dros Dro,
Y Ganolfan Ddinesig,
Casnewydd,
NP20 4UR

Dyddiedig heddiw 8 Mai, 2017.

Noder: - Dylai ymholwyr gysylltu â Philip Johnson, y Dirprwy Swyddog Canlyniadau Dros Dro, am fwy o wybodaeth ar 01633 210742. Argymhellir gwneud apwyntiad i gyflwyno papurau enwebu.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Dros Dro,
Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR